

Cwmpasu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Dadansoddwyr Gofal Cymdeithasol



Cynnwys

	Tudalen
Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	4
Cyflwyniad	8
Methodoleg	11
Canfyddiadau	32
Argymhellion	41
Casgliadau	56
Atodiad	60

Rhagair Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae ein gallu i ddefnyddio data gofal cymdeithasol yn effeithiol yn bwysig os ydym am ddeall yr effaith a gawn ar fywydau'r bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Er 2020, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi arwain y ffordd wrth ddatblygu strategaeth ddata ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws gofal cymdeithasol a'r tu hwnt i greu gofal cymdeithasol sy'n gyfoethog o ran data ac sydd â'r sgiliau a'r gallu i wireddu ei botensial yn llawn.

Amlygodd ein [hadroddiad darganfod](#) yr angen i barhau i ddatblygu ein gallu a'n galluoedd, gyda data yn un o'r blaenoriaethau allweddol.

Mae deall beth yw ein sgiliau presennol a beth y mae angen i ni ei wneud i ddechrau gwireddu ein huchelgeisiau yn hollbwysig, a'r rheswm pam y comisiynwyd Social Finance i wneud y gwaith hwn. Gofynnwyd hefyd y cwestiwn, "a fyddai fframwaith proffesiynol ffurfiol yn ein helpu i gyflawni ein nodau?"

Ein camau nesaf yw gweithio ar y cyd â'n partneriaid ar yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad. Hoffem ddiolch i'n holl gydweithwyr am gyfrannu i'r gwaith hwn, a gobeithio y gallwn barhau â'r daith hon gyda'n gilydd.

Owen Davies
Rheolwr Data a Gwybodaeth
Gofal Cymdeithasol Cymru

Crynodeb Gweithredol



Crynodeb Gweithredol

Yn 2020, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ofal Cymdeithasol Cymru gwmpasu [dull strategol o ymdrin â data gofal cymdeithasol yng Nghymru](#). Ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, rhyddhawyd adroddiad darganfod yn amlinellu'r canfyddiadau.

Amlygodd yr adroddiad nifer o themâu a welai rhanddeiliaid yn feysydd blaenoriaeth i'w datblygu. Yn dilyn ymlaen o hyn, datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru [Ddatganiad o Fwriad Strategol](#) a oedd yn nodi amcanion i wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth o ansawdd da wrth ddarparu gofal cymdeithasol a chymorth i'r rhai sy'n ei ddarparu.

Nodwyd nifer o feysydd gan rhanddeiliaid gofal cymdeithasol yn flaenoriaethau uchel wrth fwrw ymlaen â'n huchelgeisiau. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu safonau data gofal cymdeithasol penodol i Gymru, siarad â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am ddefnyddio data, rhannu data, darparu mwy o ddata am ofal cymdeithasol, a gwella sgiliau data gofal cymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn ac yn archwilio'r angen am fframwaith datblygiad proffesiynol ar gyfer dadansoddwyr data gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Crynodeb Gweithredol

Beth mae'r adroddiad hwn yn ei gynnwys

Mae'r adroddiad yn ceisio ateb nifer o gwestiynau am sgiliau data mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn benodol:

- Sut mae pobl yn dod i weithio ym maes data gofal cymdeithasol?
- Sut mae pobl mewn rolau data gofal cymdeithasol yn caffael eu sgiliau?
- Pa fynediad sydd at gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a dilyniant gyrfa?

- Pa sgiliau data mae pobl eisiau eu dysgu?
- A fyddai fframwaith datblygiad proffesiynol yn helpu i wella sgiliau data yng nghymuned bresennol dadansoddwyr gofal cymdeithasol?

Sut wnaethom gynnal ein dadansoddiad?

Roedd ein gwaith yn cynnwys dull cymysg o ymchwil desg a gwaith maes. Archwiliwyd dau fframwaith datblygiad proffesiynol ac ymchwil cysylltiedig, yn ogystal â chynnal arolwg, a chynnal sgysiau cyd-destunol a gweithdai syniadau gyda gweithwyr proffesiynol data a gofal cymdeithasol yng Nghymru a'r tu hwnt.

Crynodeb Gweithredol

Ein canfyddiadau

Mae gan y rhai sy'n gweithio gyda data mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru ystod o sgiliau a galluoedd ar gyfer defnyddio data'n effeithiol. Mae ganddynt nifer o'r un problemau o ran sgiliau data â llawer o sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru mewn sefyllfa unigryw i drosoli ei rôl yn ddylanwadwr er mwyn dod â sefydliadau ynghyd i ddatrys rhai o'r problemau hyn.

Canfu ein hymchwil fod rolau data yn anghyson yng Nghymru, gyda nifer mawr o deitlau swyddi ar gyfer rolau gweddol debyg.

Er mwyn i'r rhai sy'n cyflawni rolau data a dadansoddi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru fod yn effeithiol, mae angen

sgiliau data a dadansoddi yn ogystal â gwybodaeth am wasanaethau.

Mae hyfforddiant ar gael, ond mae cwestiwn ynghylch ei addasrwydd ar gyfer datblygu dadansoddwyr data. Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a ddilynwyd gan ein cyfranogwyr yn canolbwyntio ar lywodraethu gwybodaeth. Nid oedd hyfforddiant gwybodaeth gwasanaeth ar gael, yn hytrach dysgwyd hyn 'wrth y gwaith'

Mae cyfle i Ofal Cymdeithasol Cymru lansio cyfres o brosiectau 'alfa' i ddylunio prototeipiau a fydd yn darparu buddion diriaethol i awdurdodau lleol a'r gymuned dadansoddwyr.

Er y gallai fframwaith datblygiad proffesiynol fod yn fuddiol yn y dyfodol, ychydig o dystiolaeth a welsom i gefnogi cyflwyno mecanwaith o'r fath gyda'r bobl sy'n gweithio ar hyn o bryd yn ddadansoddwyr data gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cyflwyniad

1

Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2021, comisiynodd Gofal Cymdeithasol Cymru Social Finance i gynnal ymchwil i ddeall ansawdd a phriodoldeb Fframweithiau Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Dadansoddwyr Data ym maes Gofal Cymdeithasol. Dechreuodd y gwaith ym mis Chwefror 2022.

Roedd Social Finance yn deall bod y maes yn gymhleth, gydag Awdurdodau Lleol ar wahanol gamau ar eu 'teithiau' i ddatblygu gallu digidol a data. O'r herwydd, teimlwyd y gallai Fframweithiau Datblygiad Proffesiynol fod yn un dull posib o greu'r newid ystyrion yr hoffai Gofal Cymdeithasol Cymru ei weld yn y sector – ond y dylid ystyried eraill.

Y cwestiwn i'w ateb oedd:

Ai creu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol (neu hyrwyddo fframwaith presennol) fyddai'r dull cywir ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru i alluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi'r rhai sy'n gweithio gyda Data a Sefydliadau i ddeall y sgiliau a'r profiad y mae eu hangen arnynt, er mwyn gwella canlyniadau i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.



Cyflwyniad

Gweithiodd Social Finance yn agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddylunio a datblygu'r prosiect a gynhaliwyd rhwng Chwefror ac Ebrill 2022 ac a gyflawnwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg ganlynol:

Ymchwil bwrdd gwaith ar fframweithiau datblygiad proffesiynol presennol a'u haddaswydd i'w mabwysiadu gan y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Arolwg i gael gwell dealltwriaeth o'r rhai sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn rolau data a dadansoddi yn y maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ffurio damcaniaethau gan ddefnyddio data a gasglwyd yn ystod gwaith maes a luniwyd gan ddefnyddio cyfres o ddatganiadau problem.

Cyflwyno adroddiad terfynol i Ofal Cymdeithasol Cymru gyda chyfres o argymhellion a chamau nesaf.

Gweithdai i archwilio'r rhwystrau ymddangosiadol i ddatblygu sgiliau dadansoddi yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ymchwil defnyddwyr manwl a gynhaliwyd trwy gyfres o sgysiaau cyd-destunol ag unigolion allweddol o'r gymuned ddadansoddi mewn gofal cymdeithasol a rolau eraill yn y sector cyhoeddus.

Sesiynau syniadau gyda rhanddeiliaid i ddatblygu datrysiaid i'r problemau.

Methodoleg

2

Trosolwg o'r Fethodoleg

Ymchwil Desg

Deall y dirwedd a fframweithiau datblygiad proffesiynol presennol

Datblygu damcaniaethau

Gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i benderfynu ar y lle gorau i ganolbwyntio'r ymchwil arno

Arolwg

Casglu barn pobl ledled Cymru ar rôl dadansoddwyr data a data mewn gofal cymdeithasol

Sgyrsiau Cyd-destunol

Nodi a dilysu themâu allweddol sy'n codi o'r arolwg

Ymchwil Defnyddwyr

Meithrin dealltwriaeth fanwl o brofiadau pobl sy'n gweithio gyda data mewn gofal cymdeithasol

Gweithdai syniadau

Trafod datrysiadau i'r anghenion sy'n deillio o'r ymchwil

Ymchwil Desg

Gwnaethom asesu priodoldeb dau Fframwaith Datblygiad Proffesiynol presennol: y Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol ar gyfer Dadansoddeg Iechyd a Gofal, a'r Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Addysgwyr Iechyd.

Adolygwyd hefyd yr Adroddiad ar Fframweithiau Cymhwysedd ar gyfer Dadansoddwyr Gwasanaeth Iechyd gan AphA (Arafin et al. 2022). Canfu'r adroddiad hwn fod gan bobl sy'n gweithio mewn rolau data ym maes gofal iechyd ddiddordeb mewn Fframwaith Datblygiad Proffesiynol 'delfrydol', ond canfuwyd eu bod yn anhapus â'r fframweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Dywedodd dadansoddwyr mewn awdurdodau lleol wrthym nad oedd eu cydweithwyr bob amser yn deall eu rolau dydd i ddydd, felly byddai'n bwysig cynnwys dadansoddwyr wrth ddylunio unrhyw fframwaith.

"Mae gwerthfawrogiad clir o'r manteision posib y gallai fframwaith cymhwysedd 'delfrydol' eu darparu. Mae'r ymatebion o'r arolwg ar-lein, er enghraifft, yn dangos gwahaniaeth syfrdanol rhwng y gwerth isel y maent yn ei roi ar y fframweithiau presennol o'i gymharu â photensial fframweithiau mewn 'byd delfrydol'."

"Ar gyfer y fframweithiau presennol, y gyfran gyfartalog o ymatebwyr a oedd yn graddio'r holl categorïau yn rhai gwerth 'uchel' neu 'gymedrol' (recriwtio, dyrchafu staff, datblygiad proffesiynol /gyrfaol, datblygu cyrsiau hyfforddi, archwilio ac asesu sgiliau, cofrestriad proffesiynol) oedd 37%, ac roedd yn 81% ar gyfer y fframwaith 'delfrydol'."

Arafin et al. 2022, t.52



Adeiladu damcaniaethau gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Yn dilyn ymchwil desg, daethom â detholiad o ddamcaniaethau ynghyd i'w hystyried gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Gwnaethom ddatblygu set o ddamcaniaethau i Ofal Cymdeithasol Cymru eu hystyried, yna eu trafod a'u blaenoriaethu yn bedwar maes i ganolbwyntio arnynt:

Damcaniaeth 1: Nid yw sefydliadau yn deall rôl dadansoddwyr data yn llawn. Er enghraifft, gellir ystyried y rôl yn un syml, ac yn gyfyngedig i greu taenlenni. Yn ogystal, gellir ystyried problemau a wynebir wrth gwblhau tasgau (er enghraifft oherwydd problemau TG, neu ddiffyg mynediad at ddata o ansawdd) yn ddiffyg gallu ar ran Dadansoddwr Data.

Damcaniaeth 2: Nid yw pobl data yn weladwy iawn yn eu sefydliadau. Mewn rhai sefydliadau mae pobl data yn brin eu dylanwad o bosib, am eu bod yn cael eu hystyried yn swyddogaeth cymorth busnes yn hytrach na swyddogaeth broffesiynol, gan ei gwneud yn anodd goresgyn problemau megis technoleg wael neu fynediad at ddata.

Damcaniaeth 3: Ni all llywodraeth leol a gofal cymdeithasol gystadlu â'r gwasanaeth sifil ac iechyd o ran cyflogau neu gyfleoedd.

Damcaniaeth 4: Mae pobl data yn colli sgiliau oherwydd diffyg mynediad at hyfforddiant 'wrth y gwaith' (hynny yw, profiad ymarferol gyda phrosiectau data).

Arolwg

Cynaliasom arolwg i ganfod sut roedd pobl ledled Cymru yn teimlo am rôl dadansoddi data a dadansoddwyr o fewn gofal cymdeithasol.

Anfonwyd yr arolwg at aelodau Grŵp Adrodd Cenedlaethol a Grŵp Gwybodaeth Busnes Llywodraeth Cymru.

Roedd yr arolwg ar agor am 20 niwrnod rhwng 17 Chwefror 2022 ac 8 Mawrth 2022. Aeth at tua 100 o bobl, a dychwelwyd 57, gyda 44 o'r rhain gan Awdurdodau Lleol.

Ni ofynnwyd i'r ymatebwyr am eu cyfeiriad gwaith na sefydliad, i ddiogelu eu cyfrinachedd. Dim ond ymatebion 29 o bobl a ddarparodd eu cyfeiriadau e-bost yr oeddem yn gallu eu holrhain. O'r rhain, roedd gennym ymatebwyr o 13 o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, a dosbarthiad daearyddol da.



Themâu'r arolwg

Daeth chwe thema allweddol i'r amlwg o'r arolwg ar brofiadau pobl sy'n gweithio gyda data ym maes gofal cymdeithasol:

Thema	Disgrifiad
1. Daeth dau grŵp defnyddwyr craidd i'r amlwg	Dangosodd yr arolwg fod dau grŵp trosfwaol y gallem ganolbwyntio arnynt, 'Dadansoddwyr Grŵp' ac 'Arweinwyr Tîm a Rheolwyr'.
2. Cyfrifoldebau dydd i ddydd yn gyson ar draws gwahanol deitlau swyddi a lefel profiad	Mae cyfranogwyr yn cael profiadau tebyg o'u rolau dydd i ddydd ag eraill yn eu 'grŵp defnyddwyr', er gwaethaf gwahaniaethau yn eu teitlau swyddi a'r amser y maent wedi bod yn y rôl.
3. Mae rolau a chyfrifoldebau rhwng 'Dadansoddwyr Grŵp' ac 'Arweinwyr Tîm a Rheolwyr yn amrywio	Mae sgiliau Arweinwyr Tîm a Rheolwyr, a Dadansoddwyr Grŵp yn debyg, ond yn wahanol o ran faint o amser a neilltuir i waith data ymarferol (Creu Delweddau, Awtomeiddio, Adroddiadau) yn erbyn sgiliau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau (Cynnal Dadansoddiadau, Dylunio ac Arwain Prosiectau Data).

Themâu'r arolwg

Daeth chwe thema allweddol i'r amlwg o'r arolwg ar brofiadau pobl sy'n gweithio gyda data mewn gofal cymdeithasol:

Thema	Disgrifiad
4. Amrywiad ar allu ymatebwyr i gyfathrebu â data	Mae amrywiaeth sylweddol yn y sgiliau a oedd gan gyfranogwyr (yn enwedig Dadansoddwyr Grŵp) a oedd wedi'u neilltuo i gyfathrebu data. Roeddent yn gweld y sgiliau hyn yn hanfodol: Cyflwyno Data i Eraill, Creu Adroddiadau ac Excel.
5. Mae dadansoddiad ansoddol (gan gynnwys gwybodaeth gwasanaeth) yn allweddol	Mae'r sgiliau sydd wedi'u codeiddio yn yr arolwg yn rhai dadansoddi data ansoddol, arwain prosiectau dadansoddi data, a dylunio prosiectau dadansoddi data, yn debygol o ymwneud â 'gwybodaeth weithredol neu wasanaeth', a ddaeth yn bwnc trafod allweddol yn ystod cyfweiliadau â defnyddwyr.
6. Cyfleoedd hyfforddi cyfyngedig	Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi cael llawer o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. pan gafodd cyfranogwyr hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, roedd yn eithaf defnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn iddynt.

"Sgyrsiau cyd-destunol"

Cynhaliwyd sgyrsiau cyd-destunol ag 11 o bobl o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Data Cymru, Prifysgol Caerdydd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Uned Gyflawni GIG Cymru, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Lleol yn Lloegr, ac aelod etholedig o Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Mewn sgwrs gyd-destunol, mae'r ddwy ochr yn ymwybodol o natur y sgwrs, felly mae'r cyd-destun wedi'i benderfynu ymlaen llaw. Mae hyn yn caniatáu i sgyrsiau ganolbwyntio ar y mater dan sylw yn hytrach na threulio amser yn egluro pwrpas y sgwrs.

Siaradodd y cyfranogwyr â ni yn rhinwedd bersonol eu swydd broffesiynol ac nid yn gynrychiolwyr eu sefydliadau. Er hynny, roedd eu canfyddiadau'n hynod werthfawr ar sail eu harbenigedd presennol o weithio yn y gofod data gofal cymdeithasol.



"Sgyrsiau cyd-destunol"

Cafodd yr ymatebion eu grwpio i 7 maes thematig:

Thema	Disgrifiad
1. Llywodraeth a pholisi	Sylwodd pobl fod mwy o ffocws ar ddata yng Nghymru a chan Lywodraeth Cymru. Y teimlad o hyd, fodd bynnag, oedd bod data yn 'rhywbeth y mae rhywun arall yn ei wneud', a bod diffyg arweiniad strategol ar gyfer gwaith data.
2. Sgiliau data yng Nghymru	Dywedodd pobl wrthym fod pocedi o sgiliau data da yng Nghymru, ond nad oedd y sgiliau hyn o reidrwydd yn treiddio i'r sector cyhoeddus ehangach.
3. Sefydliadau neu ymyriadau eraill	Mae cyrsiau a hyfforddiant ar ddata yn y sector cyhoeddus yn cael eu datblygu gan Brifysgol Caerdydd, Data Cymru, Y Lab, CDMS a rhagor Mae dulliau arddull cymunedol yn tyfu, ond yn cymryd amser i fagu momentwm.

"Sgyrsiau cyd-destunol"

Thema	Disgrifiad
4. Fframweithiau Datblygiad Proffesiynol	<p>Dywedodd pobl y gallai Fframweithiau Datblygiad Proffesiynol fod yn ddefnyddiol ar gyfer creu sgyrsiau neu ddychmygu cyflwr delfrydol ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd llawer yn <i>ymwybodol</i> o unrhyw fframweithiau, nac yn eu defnyddio, neu nid oeddent yn teimlo bod fframweithiau'n berthnasol i'w cyd-destun.</p>
5. Awdurdodau Lleol	<p>Clywsom fod rhai Awdurdodau Lleol yn gwneud gwaith da gyda data - ond roedd pobl hefyd yn teimlo bod dod yn dda gyda data yn rhyw fath o 'iwtopia'.</p> <p>Roedd pobl yn teimlo'n gadarnhaol bod y gymuned ddata ehangach ar y cyfan yn dod yn fwy agored ac yn rhannu, er bod rhai'n teimlo bod Awdurdodau Lleol yn dal i fod yn 'amddiffynnol', a oedd yn parhau i'w cadw ar wahân yn sefydliadol ac yn atal cyfleoedd ar gyfer arloesi ar draws y sector.</p> <p>Teimlid hefyd fod gormod o ffocws gwaith data ar DPA, perfformiad a dangosfyrddau.</p>

"Sgyrsiau cyd-destunol"

Thema	Disgrifiad
6. Arweinyddiaeth	<p>Dywedodd rhai eu bod yn teimlo bod Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol eisiau gwneud yn well, ond bod iaith yn dal i fod yn rhwystr i gynnydd, a phobl mewn swyddi uwch heb ddeall terminoleg ac iaith fwy technegol a ddefnyddir ym meysydd data a digidol.</p>
7. Defnyddio data	<p>Roedd teimlad bod data ar gael – ond bod llawer o sefydliadau yn dal i fethu adrodd straeon gyda data.</p> <p>Soniodd pobl hefyd fod data yn ddeinamig (nid statig) ac nad oedd data a ddefnyddir mewn gofal cymdeithasol bob amser o'r ansawdd gorau.</p> <p>Dywedodd un person wrthym ei fod fel arfer yn gweithio gyda niferoedd bach e.e. plant mewn gofal – nad yw o reidrwydd yn addas ar gyfer gwaith gwyddor data manwl. Yn nodedig, tynnodd rhywun arall sylw at y diffyg parodrwydd i rannu data ymhlith Awdurdodau Lleol a allai ganiatáu ar gyfer cronni setiau data mwy.</p>

Ymchwil defnyddwyr – Cyfweiliadau

Fe wnaethom gyfweild â 29 o bobl mewn 20 o gyfweiliadau un i un ac un grŵp ffocws.

Daeth y cyfranogwyr o naw Awdurdod Lleol yng Nghymru. Gwnaethom eu dewis ar sail eu rôl a'u profiad. Gwnaethom gyfweild y grwpiau canlynol:

- Uwch Reolwr Llywodraeth Leol
- Dadansoddwr Data yn y rôl ers amser hir
- Dadansoddwr Data Graddedig
- Arweinydd Tîm data neu berfformiad



Ymchwil defnyddwyr – cyfleoedd a nodwyd

Dadansoddwyd y data a gasglwyd gennym o'r arolwg a'r cyfweiliadau, a nodwyd saith cyfle allweddol:



Cyfle 1: gwneud gwaith traws-gydweithredol gwell er mwyn rhannu setiau sgiliau



Cyfle 2: gwneud cyfleoedd dilyniant yn dryloyw ac yn hygyrch i bawb mewn rolau data mewn gofal cymdeithasol



Cyfle 3: gwneud disgrifiadau swydd dadansoddwyr data yn fwy cyson ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru



Cyfle 4: ei gwneud yn haws i bobl sy'n gwneud gwaith data mewn gwahanol awdurdodau lleol gydweithio a datrys problemau gyda'i gilydd



Cyfle 5: adeiladu ar y pethau yr oedd pobl yn eu hoffi am weithio mewn rolau data gofal cymdeithasol yng Nghymru



Cyfle 6: gwneud cyfrifoldebau timau data gofal cymdeithasol yn gliriach i eraill



Cyfle 7: mynd i'r afael â phroblemau gyda systemau technoleg sy'n gwneud gwaith data'n anos

Ymchwil defnyddwyr – Cyfle 1



Cyfle 1: gwneud gwaith traws-gydweithredol gwell er mwyn rhannu setiau sgiliau

- Rhaid i ddadansoddwyr a thimau yn y sector data Gofal Cymdeithasol fod yn amlochrog er mwyn dangos yn well gwerth y gwaith y mae Gofal Cymdeithasol yn ei wneud.
- Mae gwybodaeth gwasanaeth yn aneglur (heb ei gwreiddio, yn anffurfiol, heb ei strwythuro, heb ei hysgrifennu, yn gymhleth), sy'n golygu ei bod yn cymryd amser hir i ddysgu.
- Mae angen mwy o ymwybyddiaeth ar y rhai sydd â sgiliau arbenigol (naill ai ymarferwyr data neu Ofal Cymdeithasol) o wybodaeth a gwaith eu cymheiriaid a chyfleoedd i ddysgu amdanynt.

Ymchwil defnyddwyr - Cyfle 2



Cyfle 2: gwneud cyfleoedd dilyniant yn dryloyw ac yn hygyrch i bawb mewn rolau data mewn Gofal Cymdeithasol

- Mae'r opsiynau ar gyfer dilyniant yn anghyson, ond yn aml yn dod yn gliriach wrth i berson godi'n uwch mewn sefydliad. Roedd Arweinwyr Tîm a Rheolwyr yn hyderus eu bod yn gwybod beth fyddai eu cam nesaf.
- Roedd y ddau grŵp yn cydnabod bod argaeledd y cam nesaf yn eu gyrfa yn debygol o fod yn seiliedig ar faterion y tu hwnt i'w rheolaeth, yn enwedig o ran pryd y byddai pobl eraill yn symud ymlaen neu'n cael dyrchafiad.
- Mae timau'n ymwybodol bod angen hyfforddiant ar eu haelodau, ond nid yw hyn yn cael ei ddarparu'n gyson, ac nid yw'n glir pa hyfforddiant i'w ddarparu.

Ymchwil defnyddwyr - Cyfle 3



Cyfle 3: gwneud y broses ymgeisio yn fwy cyson ar draws Awdurdodau Lleol Cymru

- Mae'r rhai mewn swyddi arweinyddiaeth yn ymwybodol nad yw eu hymagwedd at gyflogi yn denu doniau oherwydd disgrifiadau swydd rhy gymhleth a 'brawychus'.
- Mae ymwybyddiaeth bod cystadleuaeth a gwell tâl am rolau tebyg mewn sefydliadau cyhoeddus a phreifat eraill.
- Daw Arweinwyr Tîm, rheolwyr a dadansoddwyr o wahanol gefndiroedd, ac yn aml maent yn symud i rolau trwy serendippedd i addasu i anghenion y sefydliad ar y pryd.

Ymchwil defnyddwyr - Cyfle 4 a 5



Cyfle 4: ei gwneud yn haws i bobl sy'n gwneud gwaith data mewn gwahanol Awdurdodau Lleol gydweithio a datrys problemau gyda'i gilydd


- Mae gwahaniaethau sefydliadol yn ei gwneud yn anodd i bobl symud rhwng Awdurdodau Lleol.



Cyfle 5: adeiladu ar y pethau yr oedd pobl yn eu hoffi am weithio mewn rolau data Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

- Amrywiaeth y gwaith dydd i ddydd mewn rolau data mewn Gofal Cymdeithasol, y sefydlogrwydd swyddi, a'r diwylliant o'i gwmpas yw ei bwynt gwerthu.


Ymchwil defnyddwyr - Cyfle 6



Cyfle 6: gwneud cyfrifoldebau timau data Gofal Cymdeithasol yn gliriach i eraill

- Mae Dadansoddwyr Data yn deall beth yw eu rôl yn eu sefydliad ac yn credu bod hyn yn cael ei werthfawrogi.
- Nid yw timau sy'n gweithio gyda Dadansoddwyr Data yn deall y cymhlethdod a'r sgiliau gofynnol i wneud y swydd yn llawn, sy'n arwain at lawer o geisiadau (am nad yw cydweithwyr yn deall maint tasg), ac mae dadansoddwyr a rheolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gorweithio.

Ymchwil defnyddwyr - Cyfle 7



Cyfle 7: mynd i'r afael â phroblemau gyda systemau technoleg sy'n gwneud gwaith data'n anos

- Mae systemau lluosog yn creu heriau gyda diffyg awtomeiddio neu ryngweithredu sy'n golygu bod Dadansoddwyr Data yn treulio mwy o amser yn cyflawni tasgau â llaw. Mae dadansoddwyr eisiau cyflymu prosesau.
- Nododd dadansoddwyr, arweinwyr a chyfweleion sgwrs cyd-destunol bod systemau newydd, newidiadau mewn systemau, neu anawsterau wrth ddefnyddio systemau yn achos pryder. Teimlai rhai nad oedd gan ddadansoddwyr yr offer cywir i wneud eu swyddi. Nododd eraill fod newidiadau mewn systemau yn achosi colli gwybodaeth.

Gweithdai syniadau - trosolwg

Cynhaliwyd dau weithdy i ddatblygu datrysiadau posib ar gyfer y cyfleoedd a nodwyd yn ein hymchwil defnyddwyr.

Roedd gweithdy mewnol Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys 3 aelod o Ofal Cymdeithasol Cymru, ac roedd yr ail weithdy yn cynnwys cyfranogwyr a oedd wedi bod yn rhan o'n cyfweiliadau Ymchwil Defnyddwyr blaenorol. Daeth y cyfranogwyr hyn o 3 Awdurdod Lleol yng Nghymru a rhywun a oedd wedi ymuno â Gofal Cymdeithasol Cymru yn ddiweddar.

Gofynnwyd i gyfranogwyr bleidleisio ar y meysydd cyfle yr oedd ganddynt y diddordeb mwyaf ynddynt neu y teimlent eu bod yn cael yr effaith fwyaf ar y rhai sy'n gweithio yn y sector. Wedyn dangoswyd datganiadau 'Sut gallem ni?' i'w helpu i feddwl am atebion posib.



Problemau i gyfleoedd

Rhai o'r syniadau o'r gweithdai oedd:

▪ Cynllun mentora	▪ Cronfa recriwtio Dadansoddwyr Data
▪ Creu teithiau data	▪ Digwyddiadau rhwydweithio
▪ Cefnogi trosglwyddo gwybodaeth	▪ Sgiliau data cyffyrddiad ysgafn ar gyfer rolau gweithredol
▪ Creu cymuned ymarfer ar gyfer data	▪ Gwella gwelededd rôl dadansoddwyr data
▪ Galluogi cyfleoedd cysgodi	▪ Canllawiau ar gyfer cynllunio olyniaeth ar gyfer rolau data
▪ Datblygiad proffesiynol parhaus ffurfiol e.e. MSc	▪ Datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol
▪ Fforymau ar-lein	▪ Sesiynau 'galw heibio' gydag arbenigwyr data
▪ Cyfle i weithio mewn sefydliadau eraill	▪ Llyfrgell ar-lein o adnoddau hyfforddiant

3

Canfyddiadau

Canfyddiadau

1. Daeth Social Finance i'r casgliad na fyddai mabwysiadu fframwaith datblygiad proffesiynol presennol yn gam priodol i'r sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, oherwydd nifer o ffactorau cymhleth.
2. Mae gofal cymdeithasol yn system gymhleth a ddarperir gan lawer o wahanol sefydliadau. Dangosodd ymchwil fod pobl yn teimlo ei bod yn bwysig i ddadansoddwyr feddu ar y galluoedd technegol i wneud gwaith dadansoddi, yn ogystal â gwybodaeth parth am y system gofal cymdeithasol a'r prosesau lleol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth. Er bod gwybodaeth dechnegol wedi'i diffinio'n dda, mae gwybodaeth parth yn aml yn aneglur, sy'n golygu ei bod yn llai hawdd ei chael.
3. Canfuwyd fod dadansoddwyr yn aml yn meddu ar un ond nid y ddau faes gwybodaeth a ddisgrifir uchod, fel arfer o ganlyniad i'w llwybr i ddod yn ddadansoddwr. Roedd y rhai a gyflawnodd y ddau sgil yn gymharol brin.
4. Mae diffyg cysondeb yn y proffesiwn. Dychwelodd ein harolwg archwiliadol 37 o deitlau swyddi gwahanol ar gyfer rolau dadansoddwyr. Ar ôl eu harchwilio, canfuwyd bod swyddogaethau a chyfrifoldebau llawer o'r rolau hyn yn weddol debyg.
5. Roedd canfyddiad bod mwy o ffocws ar ddata yng Nghymru, yn enwedig ymhlith y cyfranogwyr ymchwil defnyddwyr strategol neu rai uwch. Y teimlad o hyd, fodd bynnag, oedd bod data yn 'rhywbeth y mae rhywun arall yn ei wneud', a bod diffyg arweiniad strategol ar gyfer gwaith data.

Canfyddiadau

6. Awgrymodd ein hymchwil fod pocedi o sgiliau data da yng Nghymru, ond nid oedd y rhain yn treiddio i'r sector cyhoeddus ehangach, ac nid oedd bob amser cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar gael i'r gymuned dadansoddwyr gofal cymdeithasol.
7. Roedd rhai sefydliadau, megis Prifysgol Caerdydd, Data Cymru ac Y Lab, yn dechrau cynnig cyfleoedd datblygu sgiliau data, ond mae llawer o'r rhain yn eu cyfnodau embryonig ac yn aml yn canolbwyntio ar lythrennedd data sylfaenol.
8. Mae dulliau arddull cymunedol yn dod yn fwyfwy poblogaidd, ond gallant gymryd amser i ennill momentwm a sefydlu. Roedd y bobl y siaradwyd â nhw yn poeni bod Dadansoddwyr Data yn teimlo'n ynysig yn eu sefydliadau nawr.
9. Clywsom rywfaint o wybodaeth galonogol am awdurdodau lleol a oedd yn gwneud peth gwaith da gyda data, ond teimlai eraill fod gwella data fel 'iwtopia'.
10. Teimlwyd bod gormod o waith ar ddata yn dal i ganolbwyntio ar 'reoli perfformiad a DPA' yn hytrach na defnyddio data'n effeithiol ac effeithlon i greu gwell canlyniadau a gwelliant.
11. Teimlai rhai fod Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol eisiau gwneud yn well, ond bod iaith yn dal i fod yn rhwystr i gynnydd.

Canfyddiadau

12. Mae teimlad cyffredinol bod data ar gael i sefydliadau gofal cymdeithasol, ond bod y sefydliadau hyn yn analluog i adrodd y straeon y gallai'r data eu datgelu.
13. Dywedwyd wrthym fod ansawdd data yn broblem ym maes gofal cymdeithasol. Yn yr un modd, clywsom fod y systemau TG yn achosi aneffeithlonrwydd.
14. Nodwyd hefyd fod diffyg data safonol yn broblem. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i sefydliadau weithio'n rhwydd gydag eraill, neu gymharu eu data â sefydliad arall, ac o bosib yn ei gwneud yn anodd i ddadansoddwyr symud i weithio mewn sefydliad arall.
15. Dywedodd cyfranogwyr wrthym fod rhywfaint o hyfforddiant ar gael ar ddata, ond bod mynediad at yr hyfforddiant hwn yn anghyson. Dywedodd pobl wrthym yr hoffent ddysgu mwy am ddelweddu data, Power BI, codio a gwyddor data, ond yn ystod cyfweiliadau mynegodd llawer o gyfranogwyr hefyd hyder i 'hunanwasanaethu' gyda hyfforddiant trwy adnoddau ar-lein.
16. Roedd llawer o hyfforddiant i ddadansoddwyr data hefyd ar ffurf ad-hoc, neu'n ddysgu 'wrth y gwaith', am nad oedd cyfleoedd ar gael, neu fod gan sefydliadau ddealltwriaeth wael o anghenion dysgu eu dadansoddwyr.
17. Roedd tystiolaeth o nifer o heriau yr oedd sefydliadau yn eu hwynebu wrth recriwtio dadansoddwyr. Mae'r sector gofal cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd cystadlu ag eraill o ran cydnabyddiaeth ariannol a chyfleoedd ar gyfer dilyniant.

Grwpiau defnyddwyr

Er bod Fframweithiau Datblygiad Proffesiynol yn canolbwyntio ar safoni a dilyniant fertigol gwahanol rolau, dangosodd ein hymchwil y gallai fod yn fwy buddiol ystyried golwg ochrol ar ddatblygu Dadansoddwyr Data Gofal Cymdeithasol, gan gefnogi datblygiad pobl 'gyflawn' y mae eu hangen i fod yn effeithiol yn y rôl hon trwy ddatblygu sgiliau ar ochr data a gwasanaeth cyn canolbwyntio ar ddilyniant i swyddi uwch.

Pobl data sydd wedi symud i Ofal Cymdeithasol

Yn debygol o feddu ar sgiliau neu brofiad data cryfach, ond nid yng nghyd-destun darparu gwasanaethau.

Mae hyn yn gwneud eu rôl yn fwy anodd am na allant sylwi ar broblemau gyda data na chyfleoedd i wella prosesau.

Dywedodd pobl wrthym fod hyn yn cael ei ddysgu 'wrth y gwaith' trwy drafod ag eraill.

Mae hyn yn ei gwneud yn anos o lawer i'r grŵp bach hwn o bobl ddatblygu, dysgu, symud rolau neu symud ymlaen ym maes Gofal Cymdeithasol.

Pobl sydd â phrofiad gwasanaeth sydd wedi symud i waith data neu sydd â diddordeb mewn symud i waith data.

Meddu ar ddealltwriaeth fanwl o'u maes gwasanaeth, a'r cyd-destun lleol yn ogystal â'r gofynion deddfwriaethol cymhleth sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol.

Yn cael eu galw yn gyffredinol i wirio data, a gallant ddweud yn reddfól pan fydd problem gyda *hyn*.

Gall sgiliau data fod yn gyfyngedig, a gallant elwa o sgiliau data lefel sylfaenol neu gymorth i ddod yn 'ddefnyddwyr data critigol'.

Grwpiau defnyddwyr

- Nododd ein harolwg amrywiaeth o lwybrau i rolau mewn Gofal Cymdeithasol heb fawr o gysondeb, ond nododd ymchwil ffynonellau posib ar gyfer datblygu Dadansoddwyr Data cyflawn:

Erail sy'n gweithio mewn Awdurdodau Lleol mewn rolau nad ydynt yn ymwneud â data ac nad ydynt yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol sydd â diddordeb mewn bod yn Ddadansoddwyr Data

Mae timau Cymorth Busnes yn aml yn fagwrfa dda i bobl data mewn Gofal Cymdeithasol. Mae'r rolau hyn yn meithrin dealltwriaeth o feysydd gwasanaeth, a strwythurau gweithredol. Yn debygol o elwa ar hyfforddiant data sylfaenol (yn arwain at fwy manwl).

Mae'n bosib y bydd gan Ddadansoddwyr Data sy'n gweithio mewn meysydd gwasanaeth cysylltiedig, megis Addysg, wybodaeth drosglwyddadwy, a'u bod mewn sefyllfa dda i weithio ym maes Gofal Cymdeithasol. Yn debygol o fod wedi dysgu rhywfaint o wybodaeth lefel uchel am wasanaeth.




"Uncym"

Gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol gyda dealltwriaeth fanwl o'r gwasanaeth, manylion gweithredol a chyd-destunol, yn ogystal â sgiliau a phrofiad data cryf.

Er eu bod yn brin, gallai Uncym fod yn gynghreiriaid pwerus iawn os gall Gofal Cymdeithasol Cymru eu nodi a'u cefnogi i ddod yn eiriolwyr ar ran gwaith sgiliau data a chael gwybodaeth am wasanaethau.



Llwybrau datblygu



- Mae'r llwybrau a ddilynir gan gyfranogwyr yn ein dau grŵp defnyddwyr (Dadansoddwyr Grŵp ac Arweinwyr Tîm a Rheolwyr) yn eithaf tebyg, a'r prif wahaniaeth yw pa sgiliau a ystyrir yn hanfodol yn amlach gan y ddau grŵp.
- Ar gyfer y ddau grŵp defnyddwyr, dywedodd ymatebwyr wrthym mai dysgu 'ad hoc yn eu swydd bresennol' oedd y ffordd fwyaf cyffredin o ddysgu. Mewn cyfweiliadau ymchwil diweddarach, dywedodd pobl wrthym eu bod wedi ennill sgiliau yn aml trwy weithio'n uniongyrchol gyda chydweithwyr, dysgu annibynnol y'i cyfeiriwyd atynt, a dulliau eraill ar y pryd.
- Mae pobl yn tueddu i ganfod bod y sgiliau sydd ganddynt yn hanfodol o ddydd i ddydd, sy'n golygu nad oes braidd dim gwybodaeth ddiangen. Mae cafeat bach i'r sylw hwn gyda Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n gweld y gostyngiad mwyaf yn y nifer o bobl sydd â'r sgil yn erbyn pobl sy'n ei chael yn hanfodol, yn debygol am ei fod yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer hyfforddiant mewn sefydliadau.


Cyfleoedd datblygu

Wrth edrych ar ganlyniadau'r cwestiynau ynghylch dysgu sgiliau newydd, ac argaeledd a defnyddioldeb yr hyfforddiant, a'r hyn y mae'r cyfranogwyr eisiau ei ddysgu, cafwyd ymatebion cymysg gan y cyfranogwyr.

Ar y naill law, dywedodd cyfranogwyr fod eu sefydliadau'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a oedd yn ymwneud â data, ond pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi mynychu hyfforddiant ar unrhyw un o'r canlynol:

- Codio, Excel, Delweddu Data, Llywodraethu gwybodaeth, Dadansoddi a chyfleu data, Dylunio dadansoddiadau data, Creu data/awtomeiddio proses, dadansoddi ansoddol.

Yr ateb gan amlaf oedd **nad oeddent**. Dywedodd llai na 10 o'r 57 o gyfranogwyr eu bod wedi cymryd rhan, sy'n ein harwain i gwestiynu argaeledd hyfforddiant sy'n addas i rôl gweithiwr data proffesiynol. Ar draws yr holl themâu hyfforddi a grybwyllwyd, y thema a gafodd y nifer mwyaf o gyfranogwyr yn y flwyddyn ddiwethaf oedd llywodraethu gwybodaeth.



Cyfleoedd datblygu

Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr ddisgrifio'r hyn yr hoffent ei ddysgu. Cwestiwn testun rhydd oedd hwn fel y gallai ymatebwyr ddisgrifio hyfforddiant mewn ffordd a oedd yn addas ar eu cyfer.

Cafwyd 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a mynegodd ymatebwyr yr hoffent ddysgu amrywiaeth o sgiliau, a'r prif ddiddordebau ynghylch delweddu/cyfathrebu data (10 cyfeiriad) a dysgu i gyflawni tasgau gwyddor data (9 cyfeiriad), yr oedd gan y ddau ohonynt hefyd feddalwedd penodol a enwir yn ymwneud â hwy yr oedd y cyfranogwyr am ddysgu eu defnyddio, megis Power BI, Tableau ac SQL (7 cyfeiriad). Roedd diddordeb hefyd mewn tasgau data mwy cymhleth, gydag ymatebion megis: "Byddwn i wrth fy modd yn gallu codio ac awtomeiddio prosesau data", gan gysylltu'n ôl i'r dyfodol delfrydol a ddangosir yn y Strategaeth Ddata (Adran 6). Ymddengys bod yr ail ddiddordeb hwn yn bennaf gan gyfranogwyr mewn rolau lefel dadansoddwr (roedd 6/9 a ddangosodd ddiddordeb yn y pwnc yn dod o'r grŵp defnyddwyr Dadansoddwyr Grŵp), ac adrodd a delweddu o ddiddordeb i Ddadansoddwyr ac Arweinwyr Tîm a Rheolwyr.



Argymhellion

4

Argymhellion

Mae cyfle i Ofal Cymdeithasol Cymru, yn unol â'r strategaeth bresennol, ddod yn froceriaid, cynullwyr ac adeiladwyr perthnasoedd y sector, gan feithrin cysylltiadau a gwneud defnydd o arbenigedd y sector i helpu i greu newid hirdymor cynaliadwy.

Dylai prosiectau neu raglenni y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu datblygu eu galluogi i dyfu a datblygu mentrau ar gyfer datblygu sgiliau dadansoddol a gwybodaeth parth, cefnogi a chyd-ddylunio ymyriadau ochr yn ochr â mentrau lleol yn y gymuned Gofal Cymdeithasol sydd â'r un uchelgais. Bydd hyn yn gofyn am fwy o ffocws a phenderfyniad ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru i ddod yn sefydliad sy'n dysgu.

Argymhelliad 1: Mae gofyniad llawer cliriach i bobl sy'n gweithio yn y maes hwn feddu ar sgiliau data, ac ar ben hynny dealltwriaeth o wasanaethau, cyd-destun a gweithrediad er mwyn gweithredu'n effeithiol yn eu rôl. Rydym yn argymhell rhaglen lawer cliriach o ddatblygu nid yn unig alluoedd technegol, ond hefyd gwybodaeth parth ac ymwybyddiaeth o wasanaethau ar gyfer Dadansoddwyr Data newydd.


Life of Pi

Gwybodaeth Gyffredinol



Siâp T

Gwybodaeth Gyffredinol



Siâp Pi

Dangosodd ein hymchwil defnyddwyr yr angen i unigolion sy'n gweithio fel dadansoddwyr mewn gofal cymdeithasol feddu ar wybodaeth dechnegol o'r offer a'r technegau a ddefnyddir mewn dadansoddiadau data, a hefyd gwybodaeth parth gofal cymdeithasol a'r prosesau a'r arferion lleol sy'n gweithredu yn eu sefydliad. Roedd gwybodaeth dechnegol, yn aml, yn cael ei chaffael trwy addysg neu hyfforddiant ffurfiol, ond roedd gwybodaeth gwasanaeth yn aml yn aneglur ac yn anos o lawer i'w dysgu.

Soniodd un cyfranogwr mewn sgwrs gyd-destunol â ni am yr angen i greu'r hyn a elwir yn "Pobl siâp Pi", sef ymateb i'r syniad traddodiadol bod pobl yn 'siâp T', hynny yw sy'n cyfuno gwybodaeth eang â gwybodaeth arbenigol. Roedd gan berson siâp pi ddwy goes a dau arbenigedd posib. Yn achos pobl data Gofal Cymdeithasol, sgiliau data a gwybodaeth gwasanaeth fyddai'r rhain.

Argymhellion

Argymhelliad 2: Nid yw llawer o'r craffu rydym wedi'i ddatgelu yn unigryw i ofal cymdeithasol, a gellir ei weld hefyd mewn cymunedau dadansoddwyr mewn llawer o sectorau eraill. Argymhellwn fod sefydliadau ym maes Gofal Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda sectorau eraill (gan gynnwys pob sefydliad sector cyhoeddus arall) i ddatblygu rhaglenni ar y cyd ar gyfer datblygiad parhaus dadansoddwyr.



Argymhelliad 3: Mae llawer o fentrau'n gofyn am newid ar raddfa fawr a buddsoddiad sylweddol a fyddai naill ai y tu allan i reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru neu'n amhriodol i'w gyflawni. Byddai'r newidiadau mwy sylfaenol hyn yn dod o dan y rôl broceru neu ddylanwadu a amlinellir yn argymhelliad 1. Fodd bynnag, mae rhai prosiectau *Alffa* y dylai Gofal Cymdeithasol Cymru eu hystyried er mwyn cynnal momentwm y prosiect a dechrau deall a mynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygir yn yr adroddiad.

Argymhellion

Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell bod prif weithredwyr ac uwch reolwyr yn meithrin diwylliant data cryf yn eu sefydliadau. Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff eu gallu dadansoddol a'u gallu i ddatblygu, prosesu a deall eu data eu meithrin a'u datblygu.

Mae creu diwylliant data cryf yn fwy nag ewyllys, mae'n golygu rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cyfyngiadau a'r heriau a wynebier gan sefydliadau sy'n ceisio gwella. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu rhaglen ar gyfer llythrennedd data sylfaenol ym mhob rôl yn eu sefydliadau.
- Datblygu diwylliant data sy'n cydnabod pwysigrwydd sgiliau a chymwyseddau data, nid offer a thechnoleg yn unig.
- Cynyddu capasiti data yn fewnol i oresgyn heriau wrth recriwtio staff medrus.

Argymhellion

Argymhelliad 5: Ar ôl ystyried llawer o'r atebion a gynigiwyd gan gyfranogwyr yn ein hymchwil, rydym wedi dewis y pedwar prosiect canlynol i symud ymlaen i alffa. Credwn mai'r prosiectau hyn sydd â'r ystod ehangaf a'r effaith bosib uchaf.

- a) **Teithiau data tryloyw** – cyfres o fapiau sy'n dangos sut mae data'n llifo o fewn awdurdod lleol, gan alluogi defnyddwyr y mapiau hynny i weld sut caiff data eu cofnodi a'u creu, y timau sy'n cadw ac yn rheoli'r data, beth maen nhw'n ei wneud â'r data hwnnw a pam. Byddai cyhoeddi'r mapiau hyn yn agored hefyd yn galluogi trafodaeth rhwng gwahanol awdurdodau lleol.
- b) **Creu llwyfan agored ar gyfer disgrifiadau swydd data Gofal Cymdeithasol**– byddai cael lle i awdurdodau lleol rannu neu gasglu disgrifiadau swydd yn cefnogi cysondeb yn y rolau hyn, gwell tryloywder, cyd-ddealltwriaeth o ofynion sgiliau, a rhesymoli teitlau swyddi.
- c) **Creu llyfrgell adnoddau hyfforddiant** – llwyfan ffynhonnell agored sy'n rhestru'r holl gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol sy'n ymwneud â rolau dadansoddwyr mewn gofal cymdeithasol. Gall y rhain fod yn gymwysterau ffurfiol, cyrsiau byr, adnoddau ar-lein, llyfrau, blogiau, fideos ac unrhyw adnodd arall sy'n hyrwyddo datblygiad pellach y rhai sy'n gweithio gyda data yn rhan o'u rolau.
- d) **Sefydlu cymunedau ymarfer data/dadansoddi** – man anffurfiol ar gyfer sgwrsio, datrys problemau a dod i adnabod dadansoddwyr eraill yn y sector gofal cymdeithasol. Dylai'r gofod hefyd ganiatáu rhyngweithio â grwpiau mwy ar gyfer trafodaeth ehangach.

Prosiectau 'Alffa'

Mae prosiectau Alffa wedi'u cynllunio i brofi damcaniaethau trwy arbrofi. Pwrpas y cyfnod alffa yw rhoi cynnig ar ddatrysiadau i broblemau y dysgon amdanynt yn ystod ein hymchwil gyda'r gymuned dadansoddwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Maent wedi'u cynllunio fel prototeipiau sy'n herio'r ffordd y gwneir pethau. Mae'r cyfnod alffa yn gyfle i archwilio dulliau newydd. Nid ydynt o reidrwydd i fod yn gynnyrch 'gorffenedig', ond dylent fod yn ymarferol ac yn ddigon da i allu rhoi prawf ar syniadau. Erbyn diwedd y cyfnod alffa, gwneir penderfyniad i symud ymlaen â'r syniadau hynny sy'n dangos yr addewid fwyaf i'r cyfnod beta.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi trosolwg o'n prosiectau alffa dewisol:



Alffa 1 - - Teithiau Data

Beth ydyw?

Cyfres o fapiau sy'n dangos sut mae data'n llifo mewn awdurdod lleol, gan alluogi defnyddwyr i weld beth sy'n cael ei gofnodi a'i greu, gan bwy, a pham.

Pam y syniad hwn?

- Pleidleisiodd tîm Gofal Cymdeithasol Cymru y syniad hwn yn uchel yn y gweithdy syniadau gyda'r syniad o hyrwyddo tryloywder.
- Byddai'n egluro cyfrifoldebau timau gan ganiatáu iddynt wneud y gwaith y maent am ei wneud.
- Helpu timau i ddeall cylchoedd gwaith ei gilydd.
- Galluogi cydweithio'n well ar draws Awdurdodau Lleol drwy hwyluso cyfathrebu rhwng timau gofal cymdeithasol tebyg.

Sut y gall Gofal Cymdeithasol Cymru fwrw ymlaen â hyn?


- Dod o hyd i Awdurdodau Lleol partner a fyddai'n fodlon gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi prosesau mapio.
- Yn ddelfrydol byddai gan y partneriaid strwythurau gwahanol ar gyfer eu timau dadansoddi data.
- Treulio amser yn deall cynhyrchion data sy'n cael eu creu a blaenoriaethu'r llifoedd proses o'u cwmpas.
- Byddai maint a chwmpas y prosiect yn dibynnu ar fath a nifer y cynhyrchion a'r sefydliadau dan sylw. Byddai angen sgiliau dadansoddwr busnes a dylunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fapio a chyfathrebu.

Alffa 1 - Teithiau Data: Enghraifft

Yn ystod ymchwil, dechreuodd tîm Social Finance ddatblygu rhai mapiau trefniadaeth lefel uchel ar gyfer dau Awdurdod Lleol gyda gwahanol dimau data Gofal Cymdeithasol, i weld a allai fod unrhyw gyfle i ddysgu o'r rhain. Gallai'r mapiau hyn fod yn fan cychwyn neu'n sail i drafodaeth am deithiau data mewn sefydliadau. Adolygwyd y mapiau hyn gyda chyfranogwr cyfweiliad cyd-destunol, a roddodd yr adborth canlynol i ni:

"...y cwestiwn mawr y byddwn yn ei ofyn am strwythur y ddau fap hynny yw faint o'r seilwaith dadansoddiad system gwybodaeth rheoli ac adrodd adrodd sydd wedi ei berchenogi a'i gynnal gan y meysydd gwasanaeth rydych wedi'u mapio yma, a faint sydd wedi ei berchenogi gan swyddogaeth TGCh nad ydych wedi'i mapio. Mae hwn yn bwynt gwahaniaeth hollbwysig i lawer o Awdurdodau Lleol yn Lloegr wrth gymharu seilwaith arfer..."

Alistair Herbert, cymuned Data to Insight



Alffa 2 -Disgrifiadau Swydd Tryloyw

Beth ydyw?

Llwyfan agored lle mae disgrifiadau rôl dadansoddi data torfol ar gael i bob Awdurdod Lleol er mwyn iddynt allu rhannu arferion a chyfeirio ar gyfer sefydliadau sy'n ceisio cyflogi.

Pam y syniad hwn?

- Roedd ymatebion holiaduron yn dangos amrywiaeth sylweddol o ran teitlau swyddi a chefnidroedd, gan achosi dryswch i gyfranogwyr.
- Soniodd cyfranogwyr yr ymchwil am ddiffyg eglurder a dryswch ynghylch y broses gyflogi. Mae ALlau hefyd yn cael trafferth "gwerthu" eu rolau.
- Mae strategaeth Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys gweithredu'n gynullwyr rhwng sefydliadau.
- Soniodd cyfranogwyr am yr angen i ychwanegu llawer o fanylion at bostiadau swydd i fodloni meini prawf AD, tra soniodd eraill fod hysbysebion swyddi gor-gymhleth yn rhoi braw iddynt ac yn eu hatal rhag gwneud cais.

Sut y gall Gofal Cymdeithasol Cymru fwrw ymlaen â hyn?

- Defnyddio'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Technoleg ac Arloesedd Llundain fel enghraifft (mewn partneriaeth â nhw o bosib) i brototeipio gan ddefnyddio offeryn rhad ac am ddim, megis AirTable.
- Byddai angen gwaith gan dîm Gofal Cymdeithasol Cymru i ofyn am ddisgrifiadau swydd a'u rhannu, ac yna i hyrwyddo a gwerthuso effeithiolrwydd offeryn o'r fath. Mae hyn yn golygu y gallai'r gyllideb ar gyfer cyflwyno prototeipiau fod yn eithaf bach.


Alffa 2 - Tryloywder disgrifiadau swydd: Enghraifft

Mae Swyddfa Technoleg ac Arloesedd Llundain (LOTI) wedi datblygu cronfa ddata mynediad agored o ddisgrifiadau swyddi Digidol a Data, wedi'u casglu o hysbysebion neu wedi'u cyflenwi gan Awdurdodau Lleol.

Mae'r ateb syml hwn yn defnyddio offeryn rhad ac am ddim (AirTable) a gellir ei ddefnyddio trwy dudalen we HTML syml. Mae hefyd ffurflen gyflwyno lle gall Awdurdodau Lleol gyflwyno eu disgrifiadau swydd i'w cynnwys.

Yn dilyn y gwaith hwn mae LOTI wedi mynd ar drywydd mentrau eraill i gefnogi'r sector, gan gynnwys datblygu [hyfforddiant ar sut i recriwtio](#) rolau anodd eu llenwi, [cefnogi Awdurdodau Lleol trwy ddarparu mynediad at arbenigwr recriwtio ymroddedig](#), creu [bwrdd swyddi](#), a [llawer mwy](#).

Mae LOTI wedi gweithredu'n hyrwyddwr ar gyfer gweithio mewn Awdurdodau Lleol, gan ddefnyddio eu cyfathrebu a'u gweithgareddau i hyrwyddo'r rhain yn lle bywiog a diddorol i weithio ynddo. Mae [tudalen we Cwestiynau Cyffredin Gyrfaoedd Data LOTI](#) yn enghraifft dda o hyn, ac yn ddull y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru ei efelychu'n hawdd.



Alffa 3 - Llyfrgell adnoddau hyfforddiant

Beth ydyw?

Llyfrgell adnoddau ar-lein sy'n cyfeirio, sy'n cynnal ac sy'n hyrwyddo hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth o bobl sy'n gweithio gyda data ym maes Gofal Cymdeithasol. Byddai hyn hefyd yn cynnwys cyfeirio at gyflenwyr dibynadwy, yn ogystal â chysylltiadau â datblygiad proffesiynol, megis cyrsiau prifysgol sydd ar gael yng Nghymru.

Pam y syniad hwn?

- Dywedodd canfyddiadau'r holiadur wrthym nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi cael mynediad at hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Dywedodd cyfweiliadau ymchwil defnyddwyr wrthym fod Arweinwyr Tîm a Rheolwyr yn ymwybodol bod angen hyfforddiant ar eu timau, fodd bynnag, nid yw hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n gyson, ac nid yw'n glir beth y dylent ei ddarparu.
- Soniodd cyfranogwyr y gweithdai syniadau am gyfeirio at hyfforddiant.
- Gallai hyn gefnogi mwy o bobl na fframwaith datblygiad proffesiynol.

Sut y gall Gofal Cymdeithasol Cymru fwrw ymlaen â hyn?

- Ar hyn o bryd, dylai Gofal Cymdeithasol Cymru geisio defnyddio fframiau gwifren papur a dylunio prototeipiau i brofi a dysgu gan ddefnyddwyr, nid datblygu prototeipiau ffyddlondeb uchel (cod ansawdd cynhyrchu).
- Blaenoriaethu'r grwpiau, dadansoddwyr data sydd am ddysgu am ofal cymdeithasol, ac ymarferwyr gofal cymdeithasol sydd am ddysgu sgiliau data, oherwydd mae eu profiadau'n debygol o fod yn berthnasol y tu hwnt i'r ddau grŵp hyn.
- Gweithio ochr yn ochr ag ALLau sydd eisoes wedi cael hyfforddiant a meddalwedd rad ac am ddim yn gynnwys ar gyfer y llyfrgell.

Llyfrgell Adnoddau Hyfforddiant Alfa 3: Enghraifft

Gellid diffinio llyfrgell adnoddau ar-lein yn seiliedig ar anghenion penodol grwpiau defnyddwyr yn hytrach na sgiliau a ddiffinnir yn ôl rôl neu lefel rôl:

- Pobl sy'n gwybod am ddata ond sydd angen cynyddu eu gwybodaeth am weithio ym maes Gofal Cymdeithasol.
- Pobl sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol sydd am symud i rôl data.
- Pobl sy'n gweithio mewn rolau nad ydynt yn ymwneud â data sydd am symud i rôl data mewn Gofal Cymdeithasol.
- Pobl sy'n gweithio mewn rolau data y tu allan i Awdurdodau Lleol (er enghraifft y rhai sy'n gweithio mewn sectorau tebyg, megis Iechyd) sydd â diddordeb mewn symud i Ofal Cymdeithasol

Mae enghreifftiau o lyfrgelloedd hyfforddi agored sydd wedi'u creu gan nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys yr [Adran Ffyniant Bro Tai a Chymunedau](#) (DLUHC), neu [Apolitical](#).



Alffa 4 - Cymunedau ymarfer

Beth ydyw?

Gofod anffurfiol ar gyfer sgwrsio, datrys problemau, dod i adnabod dadansoddwyr eraill yn y sector, a rhyngweithio mewn grwpiau mwy ar gyfer trafodaeth ehangach, ac mewn grwpiau llai i feithrin perthnasoedd rhyngpersonol.

Pam y syniad hwn?

- Cododd y syniad o ddefnyddio cymuned i fynd i'r afael â'r meysydd cyfle yn y ddau weithdy syniadau.
- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru mewn sefyllfa dda i adeiladu a deall datblygiad cymunedol effeithiol yn seiliedig ar eu gwaith presennol a blaenorol.
- Cafodd enghreifftiau presennol o gymunedau anffurfiol eu crybwyll yn y gweithdai mewn golau cadarnhaol, sef grŵp WCCIS.
- Sgyrsiau cyd-destunol, mae cyfranogwyr yn poeni bod Dadansoddwyr wedi'u hynysu, ac mae cyfranogwyr ymchwil defnyddwyr yn poeni mai dim ond manylion anhrosglwyddadwy am eu hawdurdod lleol y maent yn eu dysgu.


Sut gall Gofal Cymdeithasol Cymru symud hyn ymlaen?

- Byddai'n rhaid canolbwyntio i ddechrau ar ddiffinio'r gymuned, "yr hyn sy'n cael ei ddeall fel dadansoddwr" a phwrpas y gymuned, a allaf fod yn seiliedig ar y grwpiau defnyddwyr a ddiffiniwn.
- Byddai angen i Ofal Cymdeithasol Cymru ddeall y pynciau y byddai gan aelodau ddiddordeb ynddynt drwy ymgysylltu â phobl yn uniongyrchol drwy ymchwil.
- Gallai Gofal Cymdeithasol Cymru brototeipio'r syniad hwn gan ddefnyddio eu seilwaith presennol yn y Ganolfan Wybodaeth neu ystyried offer neu lwyfannau eraill a allai fod yn fwy perthnasol i'r grŵp hwn.

Alffa 4 - Cymuned Ymarfer: Enghraifft

Gall Gofal Cymdeithasol Cymru ddefnyddio eu gwaith yn y gorffennol ar gwmpasu a chreu Cymuned Dystiolaeth, yn ogystal â'u dealltwriaeth o gymunedau arfer gorau, yn ganllaw i ymdrin â'r prosiect hwn.

Mae Social Finance wedi cefnogi Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu canllawiau ar sut i ddatblygu a rhedeg cymunedau o'r math hwn, sy'n gwneud hwn yn weithgaredd y gellir ei ail-wneud ar draws y sefydliad.



Casgliadau

5

Casgliad

- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru **mewn sefyllfa unigryw yng nghanol system gymhleth o sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol**, ac mae ganddo bellach olwg ar anghenion a phrofiadau'r rhai sy'n gweithio gyda data ar gyfer Gofal Cymdeithasol.
- Gall Gofal Cymdeithasol Cymru **feithrin y perthnasoedd y mae eu hangen** a defnyddio arbenigedd y rhai sy'n gweithio yn y sector hwn i ddod yn **hyrwyddwr dylanwadol i bobl sy'n gweithio ym maes data neu Ofal Cymdeithasol**.
- Fodd bynnag, mae **sawl her o hyd** a fydd yn gofyn am gydweithio cydunol, hirdymor â sefydliadau partner rhagweithiol. Ni all Gofal Cymdeithasol Cymru fynd i'r afael â'r rhain ar eu pen eu hun, ac ni ddylent ychwaith. Bydd mentrau effaith uwch yn gofyn am gyllid ar gyfer mentrau cydweithredol, hirdymor, hyblyg, a chytundeb partneriaid i weithio'n agored a rhannu'r hyn a ddysgwyd fel y gall eraill yn y sector adeiladu ar allbynnau a helpu i ysgogi newid.

Casgliad

Mae gan bob corff cyhoeddus, llywodraeth, trydydd sector a sefydliad academaidd ran i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn, sy'n cynnwys:

- **ceisio ariannu mentrau sy'n galluogi ac sy'n hyrwyddo gweithio traws-sector**, yn enwedig yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru (Iechyd, y Gwasanaeth Sifil a'r sector preifat), i alluogi'r rhai sy'n gweithio ym maes data mewn llywodraeth leol i ddysgu gan y rhai sydd â sgiliau, profiad a ffyrdd mwy sefydledig o weithio, a helpu i rannu sgiliau ar draws y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd, gan dorri allan o'r 'cilfachau' (De Cymru neu sefydliadau penodol) a grybwyllwyd gan ein cyfranogwyr ymchwil.
- **helpu i hyrwyddo buddion anariannol gweithio ym maes data ar gyfer Gofal Cymdeithasol**, hyrwyddo rolau data Gofal Cymdeithasol fel opsiwn ymarferol i raddedigion sy'n ceisio rôl â phwrpas cymdeithasol uwchlaw'r cyflog.
- **cydnabod a helpu i nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau cyflog ar gyfer rolau data** ar draws rhannau o'r sector, gan gynnwys Iechyd a'r Gwasanaeth Sifil, a bod anghydraddoldebau cyflog yn cael effaith sylweddol ar y canfyddiad o Ofal Cymdeithasol.

Casgliad

Mae gan bob corff cyhoeddus, llywodraeth, trydydd sector a sefydliad academaidd ran i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn, sy'n cynnwys:

- **deall yr amrywiaeth o ran dosbarthiad sgiliau a mynediad at hyfforddiant yn y sector cyhoeddus yng Nghymru**, er enghraifft, nad yw'r cyfleoedd hyfforddi presennol y ceir mynediad atynt fel rhan o fframweithiau Iechyd neu'r Gwasanaeth Sifil ar gael i'r rheini sy'n gweithio mewn llywodraeth leol a'u bod yn cael effaith sylweddol ar ehangu y bwlch sgiliau ac atal symudiad traws-sector pobl fedrus.

Mae arweinyddiaeth dda yn elfen hanfodol o wella sgiliau data. Dylai arweinwyr sefydliadol:

- **ceisio deall llwybrau mynediad a datblygu** dadansoddwyr yn eu sefydliadau a cheisio datblygu cyfleoedd i ddadansoddwyr data ddysgu wrth y gwaith.
- **datblygu mynediad at hyfforddiant perthnasol o ansawdd uchel**. Er bod rhywfaint o hyfforddiant ar gael, dywedodd Rheolwyr wrthym nad oeddent yn aml yn siŵr pa hyfforddiant i'w gynnig.
- **caniatáu amser a lle i ddadansoddwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda data ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus**. Yn union fel ymarferwyr, mae angen i ddadansoddwyr data ddatblygu a mireinio eu sgiliau mewn gwybodaeth dechnegol a gwasanaeth yn barhaus.

Atodiad

6

Atodiad – Grwpiau rhanddeiliaid

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r rhestr o gyfranogwyr ar gyfer pob cam o'n hymchwil.

Arolwg:

Enw Grŵp Defnyddwyr	Nifer yn y Grŵp
Dadansoddwr Cyffredinol	7
Dadansoddwr Data Graddedig	2
Dadansoddwr Data sydd wedi bod yn ei rôl ers amser hir	12
Dadansoddwr Data gydag addysg ffurfiol neu hyfforddiant mewn data	4
Dadansoddwr Data gyda hyfforddiant cyflogwr	2
Dadansoddwr Data Ansoddol	2
Rheolwr/Arweinydd Tîm gyda chyfrifoldeb dros dimau sy'n gwneud gwaith data	20
Uwch Reolwr Llywodraeth Leol	3
Cydweithiwr Llywodraeth Leol â Sgiliau Data Isel	2
Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol	2

Atodiad – Grwpiau rhanddeiliaid

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r rhestr o gyfranogwyr ar gyfer pob cam o'n hymchwil.

Cyfweliadau grŵp defnyddwyr:

Grwpiau defnyddwyr yn ôl nifer	Wedi'u targedu	Cyfweliadau a gwblhawyd	Cyfanswm
Cyd-destunol	8	9	11
Uwch Reolwr Llywodraeth Leol	2	1	8
Dadansoddwr Data yn y rôl ers amser hir	2	1	1
Dadansoddwr Data gyda hyfforddiant ffurfiol	2	0	0
Dadansoddwr Data Graddedig	2	2	2
Arweinydd Tîm data neu berfformiad	3	4	4
Cydweithiwr llywodraeth leol â sgiliau data isel	1	0	0
Proffesiwn cyfagos (CS neu Iechyd)	1	1	1
Academydd	2	1	1
Ymarferydd gwaith cymdeithasol	1	0	0
Person sy'n darparu hyfforddiant	0	0	0
Dadansoddwyr Data Cyffredinol	0	1	1

Cysylltu â ni

Am ragor o fanylion neu i siarad â ni am unrhyw un o ganfyddiadau'r gwaith hwn, cysylltwch â:

Owen Davies

Rheolwr Data a Gwybodaeth
owen.davies@socialcare.wales

Catherine Tiffin-Price

Uwch Arweinydd Prosiect (Data)
catherine.tiffin-price@socialcare.wales

